3. Rhaglen Ymgynghori

3.1. Yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd, 2007 penderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd i awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Portffolio perthnasol, i roi cynllun ymgynghori manwl yn ei le fydd yn sicrhau amser digonol ar gyfer cynnal y drafodaeth gyhoeddus ar strategaeth y cynllun a'r cynigion unigol - gan adrodd ar y mater i gyfarfod o'r Cyngor ar y 13 Ragfyr, 2007.

3.2. Mae'r ddogfen isod yn gosod allan raglen ymgynghori ddiwygiedig mewn ymateb i benderfyniad y Bwrdd. Mae'r rhaglen yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

- Cynnal ymgynghoriad cyffredinol ar y Cynllun yn ystod y cyfnod o Ionawr i'r Pasg 2008 gan roi cyfle i ysgolion a chyrff eraill gyflwyno sylwadau ar strategaeth gyffredinol y Cyngor ynghyd â'r modelau a gynigir;

- Cynnig ymgynghoriad cychwynnol, fydd yn ychwanegol i'r ymgynghori statudol, gyda chorff llywodraethol pob ysgol y mae cynnig yn y cynllun drafft i'w chau neu ysgol y bydd cau ysgol gyfagos yn effeithio arni. Bydd hyn yn cynnwys ysgolion o'r fath yng nghategorïau A, B a C;

- Sicrhau'r amser digonol ar gyfer yr ymgynghori ychwanegol yma drwy ymestyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer categori A i chwe mis ac addasu'r amserlen gweithredu a gyflwynwyd yn wreiddiol. Bydd yr addasu yma yn arwain at symud rhai o'r cynlluniau oedd yn wreiddiol yng nghategori A i gategori B a rhai o gategori B i gategori C. Mae'r addasiadau yma yn cael eu crynhoi yn y tabl isod ynghyd a Phapur 4 y ddogfen atodol;

- Bydd amserlen fanwl ymgynghori â'r ysgolion hynny y mae gwariant cyfalaf ynghlwm â hwy yn ddarostyngedig i raglen gyfalaf y Cyngor a gallai un neu fwy o'r cynlluniau unigol hynny gael eu gweithredu'n gynt nag a nodir yn y cynllun drafft.

3.3. Cynllun Ymgynghori

Dyddiadau	Ymgynghori Categori A	Ymgynghori Categori B	Ymgynghori Categori C
7 Ionawr – 20 Mawrth, 2008	Ymgynghoriad ar faterion strategol yn canolbwyntio ar y model ar gyfer Ysgolion Ffederal ac Ysgolion Ardal gyda phwyslais ar rôl yr ysgolion hynny yn eu cymunedau **Categori A - Cyfarfod cychwynnol**: Aberdyfi, Parc, Llawrybetws, Llidiardau, Abersoch, Rhydyclafdy, Croesor		
Mai - Gorffennaf 2008	**Cyngor Mai/Mehefin** - Dadansoddi ymatebion i'r ymgynghori ar strategaeth Ffederal/Ardal a chyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor ym Mai/Mehefin **Categori A ymgynghori statudol** – cyfarfodydd gyda'r staff, llywodraethwyr, rhieni: Aberdyfi, Parc, Llawrybetws, Llidiardau, Abersoch, Croesor, Rhydyclafdy	**Categori B – cyfarfod cychwynol:** Dolgellau	**Categori C3 (ble mae cynnig i'w cau) – cyfarfod cychwynol**: Abercaseg, Penbryn, Llanfrothen, Cefn Coch
Medi - Rhagfyr 2008	**Cyngor Hydref** - Adrodd i'r Cyngor ar yr ymgynghori statudol. Gofyn am gymeradwyaeth ar y cynigion terfynol ar gyfer categori A **O gyfarfod y Cyngor i ddiwedd Rhagfyr 2008** - Cyhoeddi rhybuddion statudol Categori A Cyfnod gwrthwynebiadau Categori A - (dau fis yn cychwyn o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd statudol)		**Categori C1 (ble mae cynnig i'w cau) – cyfarfod cychwynol**: Baladeulyn, Bronyfoel, Clogau **Categori C3 (ble mae cynnig i'w cau) – cyfarfod cychwynol**: Nefyn, Morfa Nefyn, Borthygest, Llanystumdwy, Treferthyr, Manod, Maenofferen, Bryncrug, Llwyngwril, Llanegryn, Abergynolwyn, Bodfeurig, Tregarth, Rhiwlas
Ionawr – Pasg 2009	**Ystyriaeth gan y Cynulliad** – Categori A		

Dyddiadau	Ymgynghori Categori A	Ymgynghori Categori B	Ymgynghori Categori C
Medi 2008 – Haf 2009		**Categori B Ymgynghori statudol**: Dyffryn Ardudwy, Llanbedr, Talsarnau, Tanycastell, Dyffryn Dulas, Pennal, Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn, O.M. Edwards, Bro Cynfal, Edmwnd Prys, Bro Hedd Wyn, Tanygrisiau, Sarn Bach, Llanbedrog, Foelgron, Edern, Tudweiliog, Pontygof, Glanadda, Coedmawr, Beuno Sant, Bro Tegid	
Medi - Hydref 2009		**Adrodd i'r Cyngor ar yr ymgynghori statudol** – gofyn am gymeradwyaeth i'r cynigion terfynol ar gyfer ysgolion Categori B Cyhoeddi rhybuddion statudol ar gyfer Ysgolion Ffederal i agor ac unrhyw ysgolion yn cau ym Medi 2010	
Medi 2009	Categori A yn weithredol		
Medi 2009 - Haf 2010			**Ymgynghori statudol Ysgolion Ffederal cylch C1 ac ysgolion yn cau cylch C1**: Ganllwyd, Llanelltyd, Friog, Brithdir, Llanfachreth, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Abererch, Llangybi, Bro Plennydd, Chwilog, Yr Eifl, Llanaelhaearn, Pentreuchaf, Cwm y Glo, Penisarwaun, Gwaengynfi, Llanllyfni, Nebo, Talysarn, Groeslon, Carmel, Rhostryfan, Rhosgadfan, Baladeulyn, Bronyfoel, Clogau
Medi - Hydref 2010			Derbyn adroddiad ar yr ymgynghori ffurfiol - gofyn am gymeradwyaeth i'r cynigion terfynol ar gyfer ysgolion C1 Cyhoeddi rhybuddion statudol ar gyfer Ysgolion Ffederal i agor ac unrhyw ysgolion i gau ym Medi 2011
Medi 2010		Ysgolion Ffederal cyntaf (Categori B) yn weithredol	

Dyddiadau	Ymgynghori Categori A	Ymgynghori Categori B	Ymgynghori Categori C
Medi 2010 - Haf 2011			**Ymgynghori statudol Ysgolion Ffederal Categori C2**: Santes Helen, Ein Harglwyddes, Y Gorlan, Garndolbenmaen, Beddgelert, Llandwrog, Brynaerau, Felinwnda **Cyngor Medi/Hydref 2011** - Derbyn adroddiad ar sail yr ymgynghori - gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y cynigion terfynol ar gyfer Ysgolion Ffederal Categori C2 Cyhoeddi rhybuddion statudol ar Ysgolion Ffederal Categori C2
Medi 2011			Ysgolion Ffederal cylch C1 yn dod yn weithredol
Medi 2011 - Haf 2012			**Ymgynghori statudol ar gyfer ysgolion Categori C3** sef ysgolion fydd yn dod yn rhan o Ysgolion Ardal. Yn ddarostyngedig i'r rhaglen gyfalaf gallai un neu fwy o'r rhain gael eu symud ymlaen i ymgynghori yn gynt: Llanfrothen, CefnCoch, Manod, Maenofferen, Bryncrug, Llwyngwril, Llanegryn, Abergynolwyn, Nefyn, Morfa Nefyn, Borthygest, Llanystumdwy, Treferthyr, Bodfeurig, Tregarth, Rhiwlas, Abercaseg, Penbryn
Medi - Hydref 2012			Cyngor yn derbyn adroddiad ar ymgynghori - gofyn am gymeradwyaeth i'r cynigion terfynol ar gyfer ysgolion Categori C3 Cyhoeddi rhybuddion statudol ar sail penderfyniadau'r Cyngor
Medi 2012			Ysgolion Ffederal cylch C2 yn dod yn weithredol
Medi 2013 ymlaen			Agor ysgolion Categori C3